# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE SELECTION PANEL** |
| **DYDD MAWRTH, 21 HYDREF 2025 am 3:00 o'r gloch** | | **TUESDAY, 21 OCTOBER 2025 at 3:00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke (01248) 752518** | **Committee Officer** |

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir/Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Aled Morris Jones
Y Cynghorydd/Councillor Dylan Rees
Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mrs Ann Kennedy

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Teleri Mair Jones

# A G E N D A

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem of fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd ar 23 Medi 2025.

**3** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r isod: -

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**4** **PENODI AELOD ANNIBYNNOL I SEDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 7 - 122)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Medi 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees<br><br>**Aelodau Annibynnol**<br><br>Dr Teleri M Jones |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro/Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LL)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Margaret M Roberts yn Gadeirydd ar gyfer y broses penodi.

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. RECRIWTIO AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Swyddog Monitro y bydd tymor un o bump aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau'n dod i ben ddiwedd y flwyddyn hon. Dywedodd fod y Panel Dethol yn dilyn proses recriwtio er mwyn penodi aelod newydd i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o hyd at wyth mlynedd.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y broses penodi yn cynnwys tri cham, a'r cyntaf yw dewis y meini prawf perthnasol ar gyfer manyleb person y rôl. Yn ail, cymeradwyo'r hysbyseb, y pecyn ymgeisio a'r trefniadau hysbysebu. Yn drydydd, ystyried cwestiynau yr hoffai'r Panel eu gofyn yn ystod cyfweliadau. Nodwyd y bydd y Panel yn cwrdd ar 21 Hydref 2025 i lunio rhestr fer, gyda chyfweliadau'n cychwyn 6 Tachwedd 2025. Bydd y Panel Dethol yn cyflwyno ei argymhellion er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn fis Rhagfyr.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro ar feini prawf deddfwriaethol (Atodiad 1), sy'n statudol ac yn cynnwys gofyniad sylfaenol bod rhaid i unrhyw ymgeisydd ei fodloni er mwyn cael ei ystyried. Dywedodd y gellir hefyd rhoi meini prawf lleol, sy'n ofynion ychwanegol, ar waith (Atodiad 2), sy'n cynnwys sgiliau a all fod yn fanteisiol.

Gwnaeth y Panel drafod yr opsiynau sydd ar gael a chytuno i ddefnyddio'r meini prawf statudol ar gyfer y rôl (fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad).

**PENDERFYNWYD cytuno fod y Panel Dethol yn mabwysiadu gofynion y meini prawf deddfwriaethol ar gyfer recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.**

**4. CYMERADWYO'R HYSBYSEB A'R DOGFENNAU AR GYFER RECRIWTIO AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Nodwyd bod rhaid hysbysebu unrhyw swydd wag ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau mewn dau bapur newydd lleol. Cyfeiriwyd at swydd wag yn 2023, lle rhoddwyd hysbysebion ar wefan y Cyngor, Twitter, Facebook, Bangor and Anglesey Mail a Daily Post.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â hysbysebu'r swydd wag a'r costau. Cytunodd y Panel i osod hysbysiad mewn dau bapur newydd lleol, gan ddarparu dolen at y ffurflen gais a phapurau cefndirol, yn ogystal â hyrwyddo'r rôl ar wefan y Cyngor, Facebook, Twitter ac unrhyw lwyfan digidol priodol arall sydd ar gael i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cymeradwyo'r hysbyseb drafft yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Derbyn y llythyr drafft ar gyfer ymgeiswyr yn Atodiad 2 yr adroddiad.**
- **Hysbysebu'r swydd wag mewn dau bapur newydd lleol, yn ogystal â gwefan y Cyngor, Facebook, Twitter ac unrhyw lwyfan digidol priodol arall sydd ar gael i'r Cyngor.**

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 12 oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 6. CWESTIYNAU POSIB AR GYFER Y CYFWELIADAU I BENODI AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn gofyn i'r Panel Dethol ystyried a chytuno ar gwestiynau cyfweld addas ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer o'r meini prawf a fabwysiadwyd.

Darparwyd rhestr o gwestiynau cyfweld yn Atodiad 1 yr adroddiad. Cytunodd y Panel fod y cwestiynau'n briodol ar gyfer y broses gyfweld heb unrhyw ddigwyddiadau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Fod y Panel yn ystyried a chytuno ar y cwestiynau cyfweld ar gyfer ymgeiswyr posibl, fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad 1, yn seiliedig ar y meini prawf a drafodwyd yn Eitem 3 a 4 yr agenda.**
- **Fod y Panel Dethol wedi cwrdd ar 21 Hydref 2025 i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd, ac i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M. ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Penodi Aelod Annibynnol i Swydd Wag ar y Pwyllgor Safonau /**
**Appointment of Independent Member to a Vacant Seat on the Standards Committee**

| Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| **Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd** / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>• **Mae angen a disgwyliad am dryloywder wrth benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned**.<br><br>• There is a requirement for and expectation of transparency in the appointment of co-opted members to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors. | **Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw** / The public interest in not disclosing is:-<br><br>• **Mae disgwyliad rhesymol gan ymgeiswyr y bydd eu ffurflenni cais a'u hasesiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol ac y bydd eu cyfweliadau'n cael eu cynnal yn breifat. Mae'n bosib y gellid cymryd camau am beidio â chwrdd â'r fath ddisgwyliad rhesymol i barchu cyfrinachedd**.<br><br>• **Mae'n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi neu ddatgelu ffurflenni cais fynd yn groes i ddisgwyliadau rhesymol yr ymgeiswyr am gyfrinachedd. Mae'n debygol y byddai cynnal proses ddethol sy'n hollol gyhoeddus yn niweidiol oherwydd mae'n rhesymol i ystyried y byddai'n arwain at lai o ymgeiswyr, os o gwbl, yn ymgeisio am swyddi yn y dyfodol**.<br><br>• **Cydnabyddir fod y Panel wedi ei benodi i ymgymryd â rôl sicrwydd ar ran y Cyngor a'r cyhoedd ac, ar ôl dilyn y broses briodol, bydd yn gwneud ei argymhellion i'r Cyngor llawn a fydd yn cymeradwyo'r penodiadau terfynol. Er y bydd manylion am y penodiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi**, nid yw datgelu gwybodaeth am ymgeiswyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn cefnogi'r |

| | |
|---|---|
| | budd cyhoeddus.<br><br>• There is a reasonable expectation of confidentiality by the applicants that their application forms, assessments and interviews will be conducted in private. A breach of such a reasonable expectation of confidence is potentially actionable.<br><br>• Publication and disclosure of applications would be contrary to the reasonable expectations of the confidentiality of the candidates. A wholly public selection process is likely to be detrimental as it might reasonably result in fewer, or no, candidates applying for future vacancies.<br><br>• It is recognised that the Panel has been appointed to undertake the assurance role on behalf of the Council and the public and, following due process, will make its recommendations to full Council which will ratify the final appointments. Whilst the final appointments will be made public, the public interest is not served by disclosure of information about applicants and unsuccessful applicants. |
| **Argymhelliad** - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd a ddeuai yn sgil datgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank